Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cartref Nyrsio Plas Gwyn**

**Llanychan**
**Rhuthun**
**LL15 1TY**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 20 Hydref 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Plas Gwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Amrit Pelladoah |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Chwefror 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Cynhaliwyd yr arolygiad hwn mewn ymateb i bryderon a gyflwynwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru. Gwnaethom gynnal arolygiad llawn. Mae'r staff gofal yn anelu at ddarparu gofal yn unol â'r cynlluniau personol. Mae'r staff yn ei chael hi'n anodd cyrchu a defnyddio system electronig y gwasanaeth, lle caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth am yr anghenion gofal ei chofnodi. Nid oes modd cofnodi pob agwedd ar y gofal ar y system cofnodion electronig; caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn dogfennau papur. Ceir diffyg cysondeb wrth gofnodi'r anghenion gofal.

Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw nad ydynt yn gwybod sut i roi gwybod am bryder diogelu; gwelsom nad yw'r camau priodol bob amser yn cael eu cymryd pan fo angen. Ceir diffyg eglurder o ran pa gamau y dylid eu cymryd pan nad yw'r rheolwr yn bresennol ac oedi cyn rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff sesiynau goruchwylio ffurfiol parhaus eu trefnu ar gyfer y rheolwr. Nodwyd sawl maes o ran yr amgylchedd sy'n achosi risg i'r bobl; o ganlyniad i'r diffyg trefniadau goruchwylio, nid yw'r darparwr wedi gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Mae'r diffyg trefniadau cyffredinol i oruchwylio'r gofal a'r amgylchedd yn effeithio ar ansawdd y gofal. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â'r trefniadau goruchwylio cyffredinol, yr amgylchedd, cynlluniau personol a diogelu.

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gynnal rheolaeth dros eu bywydau pob dydd. Gwelsom y bobl yn cael eu cefnogi gan y staff gofal drwy gydol ein hymweliad a nodwyd gennym fod cydberthynas dda rhyngddynt. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am drefn arferol y bobl a'u hanghenion gofal; mae'r cofnodion yn dangos na chaiff yr holl wybodaeth ei chofnodi mewn cofnodion gofal electronig na chofnodion gofal papur. Mae'r rheolwr yn gefnogol ond ceir diffyg trefniadau goruchwylio mewn perthynas â'r gofal a ddarperir a'r amgylchedd yn y cartref.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl fwyta, yfed a rhoi meddyginiaeth. Mae'r staff gofal yn annog y bobl ac yn garedig iddynt, ond maent yn ei chael hi'n anodd cyrchu a defnyddio'r system cofnodion electronig, sy'n golygu nad yw gwybodaeth am y gofal bob amser yn cael ei chyrchu na'i chofnodi'n gyson. Caiff apwyntiadau rheolaidd eu trefnu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r rheolwr yn annog ac yn croesawu teulu a ffrindiau i gymryd rhan lle y bo'n briodol ac yn bosibl.

Mae'r cofnodion gofal yn nodi bod rhai mesurau ar waith i ddiogelu’r bobl. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg i ddangos i'r staff sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod ceisiadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn briodol ac yn amserol. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a diweddariadau diogelu. Fodd bynnag, mae digwyddiadau a fu cyn ein hymweliad ac yn ystod ein hymweliad yn awgrymu nad yw'r staff gofal yn glir ynghylch pa gamau i'w cymryd os bydd ganddynt bryder am unigolyn. Nid oes unrhyw systemau ar waith ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu a'u prosesu os bydd y rheolwr yn absennol. Gwelsom fod rhannau o'r amgylchedd yn anniogel ac y gallent achosi risg i iechyd a llesiant y bobl.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n garedig ac sy'n eu hannog. Mae'r cynlluniau personol wedi'u teilwra'n benodol at yr unigolyn. Mae asesiadau risg ar waith ond nid ydynt yn ddigon manwl. Nid yw'r system electronig yn galluogi'r staff i gofnodi rhai agweddau ar y gofal, felly caiff yr agweddau hyn eu cofnodi mewn ffeiliau papur. Mae hyn yn golygu y gellid methu gwybodaeth bwysig am anghenion gofal y bobl; yn enwedig os bydd anghenion gofal unigolyn yn newid a bod aelodau newydd o staff neu staff asiantaeth yn gofalu am y bobl. Gwelsom sampl o gynlluniau personol electronig a phapur. Er bod y cofnodion yn y ffeiliau electronig yn fanwl, mae rhannau o'r ffeiliau papur yn cael eu cofnodi mewn ffordd anniben ac felly'n anodd eu darllen a'u deall. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu gan yr un gofalwr/nyrs, sef y gweithiwr allweddol. Roedd rhai o'r adolygiadau gofal y gwnaethom edrych arnynt yn nodi nad oedd yr anghenion gofal wedi newid, er eu bod wedi newid mewn gwirionedd. Gwnaethom edrych ar archwiliadau diweddar o'r cynlluniau personol, a gwelsom nad ydynt yn nodi meysydd i'w gwella. Er bod y trefniadau ar gyfer cyfathrebu â theulu a ffrindiau yn effeithiol ac yn barhaus, nid yw'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol yn gyson. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn anelu at helpu'r bobl i weld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ond mae'r drefn hon yn anghyson weithiau. Gwelsom y rheolwr yn rhannu gwybodaeth am anghenion gofal y bobl â gweithwyr iechyd proffesiynol dros y ffôn. Dywed gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod y cartref yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw am anghenion gofal y bobl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rywfaint o oedi cyn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol (ALl) am ddigwyddiadau diogelu.

Mae angen cryfhau'r systemau sydd ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal; maent wedi ymgymryd â hyfforddiant e-ddysgu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau ac mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal bob amser yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb unigol i godi pryderon er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion. Gweslom oedi cyn rhoi gwybod am achosion a rhoi'r broses ddiogelu ar waith. Nid yw digwyddiadau diogelu bob amser wedi'u rhannu'n amserol â'r asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a monitro digwyddiadau o'r fath yn wael. Er enghraifft, nid oes gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau goruchwylio digonol ar waith mewn perthynas â'r broses ddiogelu ac nid yw wedi rhoi mesurau ar waith i fonitro digwyddiadau er mwyn atal digwyddiadau yn y dyfodol a gwneud gwelliannau. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r mater hwn.

Mae rhai mesurau rheoli heintiau ar waith. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau, sy'n gyfredol ac yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau presennol. Gwelsom eu bod wedi'u gosod o amgylch y gwasanaeth er mwyn i'r staff gofal allu cael gafael arnynt a'u darllen. Gwelsom enghreifftiau o lofnodion aelodau o'r staff gofal wedi'u dyddio, sy'n dangos eu bod wedi cael gafael ar y polisïau ac wedi'u darllen. Mae cofnodion hyfforddiant y staff gofal yn dangos eu bod wedi mynychu hyfforddiant yn y maes hwn ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld yn rhaglen hyfforddiant y gwasanaeth. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE), yn ei ddefnyddio ac yn cael gwared arno, yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Mae sawl gorsaf PPE wedi'i lleoli mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth.

Mae gweithdrefnau rheoli meddyginiaeth ar waith. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth roi meddyginiaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar roi meddyginiaeth. Gwnaethom edrych ar archwiliadau meddyginiaeth misol y rheolwr. Nid yw'r archwiliadau hyn yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella, er gwaethaf y ffaith ein bod wedi nodi rhai meysydd yr oedd angen eu gwella yn ystod yr arolygiad. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys rhai materion o ran cofnodi meddyginiaeth, diffyg gweithredu pan fydd tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn amrywio a'r ffaith bod y polisi meddyginiaeth wedi dyddio; cyflwynodd y rheolwr bolisi newydd yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod archwiliadau meddyginiaeth allanol wedi'u cynllunio. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r darparwr wedi cynnal y gwelliannau i'r amgylchedd a nodwyd fel gwelliannau gofynnol yn ystod yr arolygiad diwethaf. Nid oes systemau digonol ar waith i fonitro'r gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd na diogelwch yr amgylchedd. Nid yw'r fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Er bod yr amgylchedd yn fawr, roedd sawl peth yn y gwasanaeth a oedd yn peri risgiau i'r bobl sy'n byw yno. Er enghraifft, mae eitemau o ddodrefn nad ydynt wedi'u hatodi'n sownd ac mae twll o dan y carped ar y llawr uchaf. Ni chafodd y camau hyn eu hunioni ers yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod dwy ffenestr wedi hollti; nid oedd giatiau, drysau a chypyrddau a ddylai fod yn ddiogel wedi'u cloi. Mae angen glanhau'r ystafell fwyta gymunedol a'r ystafell staff/ardal ymwelwyr gan eu bod yn anniben ac yn cynnwys eitemau sy'n cael eu storio ac eitemau eraill sy'n eiddo i'r staff gofal; gallai hyn beri risg i bobl sy'n agored i niwed.

Rhoddwyd sgôr Hylendid Bwyd o bedwar i'r gwasanaeth (pump yw'r sgôr uchaf). Mae'r cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng yn glir, yn hygyrch ac yn seiliedig ar anghenion unigol. Mae'r gwasanaeth wedi trefnu gwiriad diogelwch tân. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd yr oedd angen eu hadolygu; mae un allanfa dân wedi'i hatal yn rhannol gan ramp cludadwy. Mae estyniadau trydanol yn cael eu defnyddio mewn modd amhriodol. Gwelsom nad oedd y labeli gofynnol ar y cymhorthion symudedd a'r teclynnau codi i ddangos eu bod wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu o fewn y terfyn amser gofynnol; gwelsom fod y dyddiad ar gyfer gwasanaethu'r teclynnau codi wedi mynd heibio. Mae ein canfyddiadau yn amgylchedd y cartref yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith; roedd llofnodion y staff arnynt a oedd yn dangos bod y staff wedi'u darllen. Fodd bynnag, ni allai'r staff gael gafael ar bob polisi, gan gynnwys polisi meddyginiaeth cyfredol. Gwelsom sampl o archwiliadau misol a gynhaliwyd gan y rheolwr, gan gynnwys Rheoli Heintiau, Meddyginiaeth, Gofal, Hylendid Dwylo, Iechyd a Diogelwch.  Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwaith monitro hwn yn arwain at nodi materion perthnasol a gwneud gwelliannau. Yn ogystal, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwaith monitro ac archwilio yn cael ei oruchwylio gan y darparwr. Trafodwyd y maes hwn â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr arolygiad diwethaf ac yn dilyn yr arolygiad hwnnw; er iddynt ddangos cynlluniau ar gyfer monitro a gweithredu gwelliannau parhaus, ni lwyddwyd i gyflawni hyn. Gwnaethom edrych ar ffeil staff y rheolwr, sy'n nodi na chynhaliwyd sesiynau goruchwylio ffurfiol wedi'u cofnodi ers 2018. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu lefelau staffio priodol ac mae'r rotas staff yn dangos hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff ar gael er mwyn iddynt ddarparu gofal o ansawdd da, yn enwedig yn ystod amseroedd bwyd. Gwelsom fod y staff gofal yn cynnig dewisiadau ac yn helpu'r bobl i fwyta. Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff. Mae angen gwella'r broses recriwtio gan nad yw'r gwasanaeth bob amser yn gofyn am eirdaon digonol. Gwelsom fod y rhestr wirio ar gyfer sefydlu staff wedi cael ei chwblhau, ond nad oedd llofnod y staff arni. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant a sesiynau goruchwylio parhaus. Cadarnhaodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw hyn, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant hyfywedd meinwe, a fynychwyd gan rai aelodau o'r staff ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae'r matrics hyfforddiant yn cynnwys rhestr o hyfforddiant y mae'r staff wedi ei fynychu eisoes neu y maent yn bwriadu ei fynychu. Mae hyn yn gyson â'r hyn a ddywedodd y staff wrthym a'r wybodaeth a welsom yn ffeiliau'r staff gofal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Mae'r cynlluniau personol yn aneglur gan eu bod yn cael eu cofnodi ar ffurf electronig ac ar bapur. Mae'r wybodaeth yn anghyson ac mae rhannau ohoni yn gwrthddweud ei gilydd, sy'n peri risg na fydd y bobl yn cael y gofal cywir. | Newydd |
| 26 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr unigolion yn ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Newydd |
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig nac wedi sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw risgiau a pheryglon cyn belled ag y bo | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | hynny'n rhesymol ymarferol. | |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau cadarn ar waith i oruchwylio ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/12/2022